



Ein cyf/Our ref: qA1497499

Mr Gareth Roberts
Pegasus Group
First Floor, South Wing
Equinox North
Great Park Road
Almondsbury
Bryste
BS32

E-bos

30 Tachwedd 2022

Annwyl Mr Roberts,

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990 – ADRAN 62D.
RHEOLIADAU DATBLYGIADAU O ARWYDDOCÂD CENEDLAETHOL (CYMRU) 2016
CAIS GAN BRYNRHYD SOLAR FARM LIMITED AR GYFER ADEILADU, RHEOLI,
GWEITHREDU, A DATGOMISIYNU DILYNOL, PARC SOLAR AR Y LLAWR AG
UCHAFSWM CAPASITI DYLUNIO O HYD AT 30MWP (MEGAWAT BRIG). TIR YN
FFERM BRYN-Y-RHYD, LLANEDI, PONTARDDULAIS, SA4 0FD.
CAIS CYF: DNS/3260565.**

1. Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad yr Arolygwyr a fu'n cynnal gwrandawiadau i archwilio'r cais cynllunio.
2. Yn unol ag adrannau 62D Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a Rheoliad 3 Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodedig a Chydsyniadau Eilaidd Rhagnodedig) (Cymru) 2016, gwnaed y cais i Weinidogion Cymru benderfynu arno.
3. Cynhaliwyd gwrandawiadau gan yr Arolygwyr ar 15 a 16 Awst 2022 a chynhaliwyd ymweliadau â'r safle ar 3 Rhagfyr 2021, 7 Medi 2022 a 5 Hydref 2022. Amgaeir copi o adroddiad yr Arolygwyr ("AA"). Mae pob cyfeiriad at rifau paragraffau, oni nodir yn wahanol, yn ymwneud ag adroddiad yr Arolygwyr.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Prif Ystyriaethau

4. Cytunaf mai'r prif ystyriaethau yw'r rhai a restrir yn AA 166:
- Yr effaith ar gymeriad tirwedd yr ardal a derbynyddion gweledol,
 - Yr effaith ar amwynder preswyl, gan roi sylw arbennig i olygwedd, fflachiadau a llacharedd, a sŵn,
 - Yr effaith ar ecoleg a bioamrywiaeth, gan gynnwys rhywogaethau a warchodir a safleoedd gwarchodedig, a
 - Ph'un a byddai unrhyw niwed yn cael ei orbwyso gan fuddion y cynllun, yn enwedig mewn perthynas â'r newid yn yr hinsawdd a sicrwydd ynni.

Yr Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol

5. Mae'r amddiffyniad polisi a roddir i bob tirwedd yng Nghymru gan Bolisi Cynllunio Cymru ("PCC") yn cael ei ddisgrifio AA 167. Mae rhan o safle'r cais wedi'i leoli o fewn Ardal Tirwedd Arbennig (ATA") Dyffryn Llŵchwr.

Tirwedd

6. LANDMAP yw llinell sylfaen tirwedd Cymru, ac mae ardaloedd agwedd wedi'u rhag-asesu o ran eu nodweddion a'u cydrannau allweddol. Mae'r Arolygwyr yn nodi bod safle'r cais wedi'i leoli o fewn ardaloedd agwedd gweledol a synhwyraidd LANDMAP "Bryniau Llanelli" a "Dyffryn Llŵchwr". Mae gan ardal agwedd Bryniau Llanelli werthusiad "cymedrol" ar y cyfan, ac mae gan ardal agwedd Dyffryn Llŵchwr werthusiad "uchel" ar y cyfan. Mae Astudiaeth Sensitifrwydd a Chapasiti Tirwedd ar gyfer Datblygiadau Ynni Solar Ffotofoltaig yn Sir Gaerfyrddin yn nodi rhywfaint o gapasiti ar gyfer datblygiadau solar ar raddfa fach i raddfa fawr yn ardal agwedd Bryniau Llanelli. Yn ardal Dyffryn Llŵchwr, ceir rhywfaint o gapasiti ar gyfer datblygiadau ar raddfa fach a leolir yn ofalus (1ha i 5ha), ond nid oes capasiti ar gyfer datblygiadau solar canolig (5ha i 15ha) neu ddatblygiadau solar mawr (mwy na 15ha). (AA 168 – 169)
7. Mae ymweliadau'r Arolygwyr â'r safle wedi cadarnhau cymeriad tirwedd yr ardal, fel y disgrifir gan LANDMAP. Gan mai dim ond 25% o'r paneli fyddai'n cael eu lleoli yn yr ATA, mae'r Arolygwyr yn cytuno â'r ymgeisydd a Chyngor Sir Gâr ("CSG") fod y safle yn ei gyfanrwydd yn meddu ar sensitifrwydd canolig i gynlluniau solar ar raddfa fawr. Fodd bynnag, mae rhannau dwyreiniol y safle yn sylweddol fwy sensitif o ran y dirwedd na thir yn y rhannau gorllewinol. (AA 170 – 172)
8. Byddai'r araeau paneli solar yn cael eu lleoli o fewn ffiniau caeau presennol ac mae'r Cynllun Lliniaru Tirwedd yn cynnwys ystod o fesurau tirlunio ychwanegol, gan gynnwys coed a gwrychoedd ar ymylon caeau lle byddai paneli wedi'u lleoli. (AA 173)
9. Fodd bynnag, mae'r Arolygwyr yn nodi mewn sawl man y byddai'r topograffi tonnog yn datguddio golygfeydd o'r araeau a'r offer cysylltiedig y tu hwnt i unrhyw dirlunio i'w lliniaru, hyd yn oed pan fyddai'r coed a'r gwrychoedd yn aeddfed. (AA 174)
10. Ar y cyfan, mae'r Arolygwyr o'r farn y byddai'r cynnig, fel cynllun unigol, yn arwain at effaith andwyol gymedrol ar gymeriad tirwedd yr ardal gyfagos yn ystod y cyfnod gweithredu. (AA 175)

Derbynyddion Gweledol

11. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol yn asesu effaith weledol y cynllun o 13 golygfan. Mae'r rhain yn cynrychioli rhai o'r lleoliadau mwyaf sensitif yn yr ardal gyfagos ac maent wedi'u lleoli ar Heol Ebeneser, Heol Troeon Bach a Heol Garn-swllt ar ochr ddwyreiniol Dyffryn Llŵchwr, ac ar nifer o Hawliau Tramwy Cyhoeddus ("HTC"), gan gynnwys llwybrau troed sy'n mynd drwy'r safle neu'n agos at y safle, neu'n croesi tir mynediad agored ar Graig Fawr. (AA 176)
12. Mae'r Arolygwyr yn rhoi asesiad manwl o effaith y cynnig ar dderbynyddion gweledol o'r golygfannau hyn. O ran effaith gronnol, mae'r Arolygwyr yn nodi bod 4 fferm solar weithredol o fewn 5km i'r safle, a chaniatâd ar gyfer 2 fferm solar arall. Fodd bynnag, mae'r Arolygwyr o'r farn mai dim ond cynllun gweithredol Clawdd Ddu, a dwy lain ddwyreiniol yng nghynllun Tŷ-croes sydd wedi derbyn caniatâd ("Dwyrain Tŷ-croes"), sy'n ddigon agos i'r safle neu'n gysylltiedig yn nhermau tirwedd a thermau gweledol i achosi effeithiau cronol posibl. (AA 177 - 190)
13. Mae'r Arolygwyr yn nodi bod y cynnig, ynghyd â chynlluniau Clawdd Ddu a Thŷ-croes wedi'u lleoli yn "Ardal Flaenoriaeth 13" ar gyfer datblygiadau solar ffotofoltaig. Fodd bynnag, cytunaf â'r Arolygwyr nad oes gan Ardal Flaenoriaeth 13 unrhyw statws mewn polisi cenedlaethol; ac o ran effeithiau ar y dirwedd, mae Cymru'r Dyfodol ond yn nodi ardaloedd a rag-aseswyd ar gyfer ynni gwynt. Felly, er bod yr Arolygwyr yn ystyried bod yr Astudiaeth Sensitifrwydd a Chapasiti Tirwedd yn darparu sail fwy priodol ar gyfer ystyried effeithiau ar y dirwedd ac effeithiau gweledol, nodaf fod eu canfyddiadau yn seiliedig ar amgylchiadau'r achos penodol hwn, wedi'u llywio gan dystiolaeth a'u harsylwadau ar y safle. (AA 189 – 190)
14. Wrth gloi ar y mater hwn, mae'r Arolygwyr yn datgan y byddai'r cynnig, yn ystod ei gyfnod gweithredu o 40 mlynedd, ar y cyd â'r cynlluniau solar cyfagos sy'n bodoli a'r rhai sydd wedi derbyn caniatâd, yn cael effaith andwyol sylweddol ar gymeriad tirwedd yr ardal. Fel cynllun unigol, byddai'r cynnig yn arwain at effeithiau gweledol andwyol sylweddol i ddefnyddwyr llwybrau troed rhif 34/24 a rhif 34/25. Hefyd, byddai'n cael effeithiau cymharol andwyol ar gymeriad tirwedd yr ardal leol fel y'i profir o fewn y safle neu yn y cyffiniau agos, ac ar y cyd, ar dderbynyddion gweledol sy'n defnyddio tir mynediad agored Graig Fawr. (AA 191 - 192)
15. Felly, mae'r Arolygwyr o'r farn y byddai'r cynnig yn gwrthdaro â'r amcanion tirwedd ac amwynder gweledol ym mholisiâu SP11 "Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni", SP14 "Gwarchod a Gwellu'r Amgylchedd Naturiol", GP1 "Cynaliadwyedd a Dylunio o Ansawdd Da" ac EQ6 "Ardaloedd Tirwedd Arbennig" yng Nghynllun Datblygu Lleol ("CDLI") Sir Gaerfyrddin. Yn ogystal, byddai'n gwrthdaro â pholisi RE3 y CDLI, "Gosodiadau Ynni Adnewyddadwy heblaw Ynni Gwynt", sy'n ymwneud ag effeithiau cronol. (AA 193)

Amwynder Preswyl

Golygwedd

16. Mae'r ymgeisydd wedi cyflwyno Asesiad Amwynder Gweledol Preswyl, sy'n gwerthuso'r effeithiau gweledol sy'n debygol o olygfannau preifat, gan gynnwys anheddau. Mae'r Arolygwyr yn fodlon bod y fethodoleg a'r rhagdybiaethau yn yr Asesiad Amwynder Gweledol Preswyl yn gadarn. (AA 194)
17. Yn achos y rhan fwyaf o eiddo a aseswyd, mae'r Asesiad Amwynder Gweledol Preswyl yn canfod na fyddai effeithiau gweledol sylweddol yn codi. Fodd bynnag, mae'n canfod y byddai effeithiau sylweddol neu ganolig (arwyddocaol) ar 6 eiddo, sydd wedi'u lleoli naill ai o fewn y safle neu ychydig i'r de, neu ar dir uwch i'r gogledd. (AA 195)

18. Mae'r Arolygwyr wedi ystyried yr effeithiau ar anheddau, ac er eu bod yn cydnabod y byddai'r olygwedd o lawer o anheddau yn yr ardal gyfagos yn newid, dônt i'r casgliad na fyddai effeithiau gweledol y cynnig, o ran eu natur neu eu graddfa, yn niweidio amodau byw preswylwyr cyfagos yn sylweddol. (AA 196 – 201)

Fflachiadau a Llacharedd

19. Cyflwynodd yr ymgeisydd Asesiad Fflachiadau a Llacharedd, ynghyd ag atodiadau sy'n ystyried amrywiadau i'r cynllun. Mae'r Arolygwyr yn nodi bod CSG a nifer o breswylwyr wedi mynegi pryderon ynghylch yr effeithiau ar eiddo yn Abertawe, yn enwedig ym mhentref Garn-swllt. Yn y gwrandawladau, dywedodd yr Arolygwyr y cadarnhawyd bod posibilrwydd yn unig y byddai adlewyrchu solar o'r araeau arfaethedig yn effeithio ar olygfannau i'r de o'r paneli. Gan fod prif ran y safle wedi'i lleoli ymhellach i'r de na'r rhan fwyaf o'r anheddau yng Ngarn-swllt, dros 1km i ffwrdd, mae'r Arolygwyr yn fodlon na fyddai effeithiau annerbyniol yn codi o ran fflachiadau neu lacharedd. (AA 202 – 206)

Sŵn

20. Mae'r Arolygwyr yn nodi bod y bennod ar Sŵn a Dirgryndod yn y Datganiad Amgylcheddol yn dweud, er mwyn sicrhau nad yw'r datblygiad a gynigir yn ffactor arwyddocaol neu waharddol o ran cyflawni gwerthoedd canllawiau perthnasol Sefydliad Iechyd y Byd mewn perthynas â derbynyddion sensitif, cynigir targed o 32dB LAeq (maes rhydd) ar gyfer y fferm solar. Mae CSG yn ceisio sicrhau nad yw'r sŵn a achosir gan y datblygiad a gynigir yn uwch na'r lefelau sŵn cefndir presennol ac mae'n amlygu'r cyngor yn BS4142 bod cynnydd o tua 5dB yn debygol o fod yn arwydd o effaith andwyol. (AA 207 – 209)
21. Yn sgil y cyngor yn BS4142, mae'r Arolygwyr yn argymhell amod, fel na fydd y sŵn a achosir gan y datblygiad a gynigir yn uwch na'r lefelau sŵn cefndir presennol. Hefyd, argymhellir amodau ychwanegol yn gofyn am asesu lefelau sŵn gweithredol ac i sicrhau mesurau lliniaru os eir y tu hwnt i lefelau sŵn penodol. Yn ogystal, argymhellir amodau i reoli sŵn adeiladu. Yn ddarostyngedig i'r amodau hyn, mae'r Arolygwyr yn fodlon na fyddai'r cynnig yn niweidio lles neu amodau byw preswylwyr sy'n byw o fewn y safle neu'n agos ato, ac y byddai'r cynnig yn unol ag amcanion polisi 18 Cymru'r Dyfodol a pholisïau SP11 a GP1 y CDLI. (AA 210 – 213)

Ecoleg a bioamrywiaeth

22. Mae'r Arolygwyr yn nodi amcanion polisi Cymru'r Dyfodol a PCC sy'n ymwneud â sicrhau cynnal a gwella bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau, gan adlewyrchu dyletswydd adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. (AA 214)

Cynefinoedd sy'n bodoli

23. Mae'r Arfarniad Ecolegol Rhagarweiniol yn cofnodi mai glaswelltir yw'r safle'n bennaf, ac mae'r mwyafrif ohono wedi'i reoli ar gyfer amaethyddiaeth ac yn brin o rywogaethau. Fodd bynnag, mae'r safle hefyd yn cynnwys rhywfaint o laswelltir corsïog; rhwydwaith eang o wrychoedd sy'n gyfoethog eu rhywogaethau ar y cyfan; cyrsiau dŵr a ffosydd; coed aeddfed; a llecynnau o goetir llydanddail. Mae rhai o'r cynefinoedd hyn yn ffinio ag ardaloedd o goetir hynafol ar gyrion y safle. (AA 215)
24. Mae'r Arolygwyr yn nodi y byddai'r araeau solar a'r offer ategol yn cael eu lleoli ar ardaloedd o laswelltir, gan osgoi effeithiau uniongyrchol ar wrychoedd, coed a chysiau dŵr. Er y byddai rhannau o'r gwrychoedd yn cael eu gwaredu er mwyn hwyluso gwaith adeiladu a chynnal a chadw, mae'r Arolygwyr yn fodlon y byddai

cyfanswm y gwrychoedd a gollir yn barhaol yn gyfyngedig ac na fyddai'n ddigon sylweddol i niweidio rhwydweithiau ecolegol sefydledig, ac y byddai mesurau lliniaru, sy'n destun amod, yn sicrhau y bydd effeithiau ar rywogaethau, gan gynnwys pathewod ac adar nythu, yn cael eu hosgoi. (AA 216)

25. Ni fyddai'r cynnig yn effeithio'n uniongyrchol ar dir o fewn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ("SoDdGA") Caeau Afon Gwili, ac er bod posibilrwydd y gall gweithgareddau adeiladu achosi cynnydd lleol mewn llygryddion, byddai effeithiau andwyol ar y SoDdGA a chynefinoedd eraill yn cael eu hosgoi drwy fesurau lliniaru a sicrhau trwy amod. (AA 217)

Rhywogaethau sy'n bodoli

26. Mae arolygon a gynhaliwyd ar y safle ac o'i amgylch wedi nodi presenoldeb nifer o rywogaethau gan gynnwys ystlumod, pathewod, dyfrgwn ac amrywiaeth o adar. Mae'r rhain yn cynnwys rhywogaethau gwarchodedig a nodir o dan Adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a rhywogaethau â blaenoriaeth a nodir yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Sir Gaerfyrddin. (AA 218)
27. Mae arolygon ychwanegol i'r Arfarniad Ecolegol Rhagarweiniol yn cadarnhau bod y safle o werth cymharol gyfyngedig i boblogaethau ystlumod. Gan y byddai'r rhan fwyaf o'r gwrychoedd a'r coed yn cael eu cadw, mae'r Arolygwyr yn fodlon na fyddai'r cynnig yn niweidio'r rhwydwaith porthiant a gwasgariad presennol. (AA 219)
28. Yn ogystal, ni chanfu'r arolygon ychwanegol unrhyw dystiolaeth o lygod y dŵr na dyfrgwn o fewn y safle, a'r farn gyffredinol yw bod y cynefinoedd a werthuswyd yn wael o ran addasrwydd. Mae dystiolaeth yng nghyffiniau'r safle yn cefnogi'r rhagdybiaeth yn yr Arfarniad Ecolegol Rhagarweiniol y byddai angen mesurau lliniaru i osgoi effeithiau ar bathewod. Mae'r dystiolaeth yn cadarnhau y byddai gosodiad y cyfarpar yn osgoi effeithiau uniongyrchol ar frochfeydd moch daear hysbys o fewn y safle. (AA 220)
29. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru ("CNC") wedi cadarnhau bod diddordeb adaregol y safle yn debygol o fod yn gymharol isel, o ystyried y cynefinoedd sy'n bresennol. Byddai'r cynnig yn cadw tir porthiant glas ar gyfer cyffylgiaid, a byddai gweithgareddau adeiladu yn digwydd yn ystod y dydd pan fydd y rhywogaeth hon fel arfer yn cysgodi mewn coetir. (AA 221)
30. Ni fyddai araeau solar yn cael eu gosod yn y cae sy'n fwyaf tebygol o fod o werth i ehedyddion a chorhedyddion y waun. Mae'r Arolygwyr yn fodlon y byddai cynllunio a dylunio'r safle i liniaru hyn yn sicrhau y gellir osgoi effeithiau andwyol ar y rhywogaethau hyn. (AA 222)
31. Mae'r Arolygwyr yn nodi bod arolwg ar droed o'r safle wedi dod i'r casgliad nad oedd unrhyw gaeau yn cynnwys cynefin a allai gynnal gloynnod byw britheg y gors. O ran infertebratau, y gwrychoedd, y cyrsiau dŵr a'r ymylon coetir ar y safle sy'n fwyaf gwerthfawr, ac mae'r Arolygwyr yn nodi y byddai'r rhain yn cael eu cadw i raddau helaeth o fewn cynllun y safle. (AA 223)
32. Mae'r Arolygwyr yn fodlon, yn ddarostyngedig i amodau i sicrhau mesurau lliniaru priodol, gan gynnwys yn ystod y cyfnod adeiladu ac mewn perthynas â goleuo, na fyddai'r cynnig yn effeithio'n andwyol ar rywogaethau sy'n bodoli o fewn a gerllaw'r safle. (AA 224)

Lliniaru, gwella ac effeithiau net ar fioamrywiaeth

33. Mae'r Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecolegol Amlinellol yn nodi mesurau y bwriedir iddynt osgoi neu leihau effeithiau ar ecoleg, a mesurau gwella er mwyn sicrhau budd net o ran bioamrywiaeth; mae'r Arolygydd yn nodi bod y Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecolegol yn unol â'r Cynllun Lliniaru Tirwedd. Mae'r Arolygydd yn nodi bod CNC wedi cadarnhau ei fod yn fodlon â'r dull a fabwysiadwyd gan yr ymgeisydd, yn ddarostyngedig i osod yr amodau a argymhellir. (AA 225 - 226)
34. Mae'r Cynllun Adfer Glaswelltir arfaethedig wedi'i fwriadu fel mesur gwella. Disgrifir manylion y Cynllun Adfer Glaswelltir yn AA 227 - 229.
35. Mae'r Arolygwyr yn fodlon, yn amodol ar fireinio'r manylion cyn y gwaith adeiladu, ac ar fonitro effeithiol, y bydd amcanion y Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecolegol yn cael eu sicrhau. (AA 230)
36. Mae'r Arolygwyr yn fodlon bod asesiad Enillion Net o ran Bioamrywiaeth yr ymgeisydd yn darparu tystiolaeth gadarn y byddai'r cynnig yn sicrhau budd net sylweddol o ran bioamrywiaeth. (AA 231 – 233) Fodd bynnag, er fy mod yn cydnabod bod yr asesiad yn cyfrifo cynnydd net o ran bioamrywiaeth, nid chafodd y metrig bioamrywiaeth a ddefnyddiwyd yn yr asesiad ei ddatblygu yng nghyd-destun fframwaith polisi cynllunio Llywodraeth Cymru. Felly, er fy mod yn fodlon bod y cynnig, yn seiliedig ar y mesurau penodol a nodwyd gan yr Arolygwyr, yn mynd i'r afael ag amcanion polisi Cymru'r Dyfodol a PCC sy'n ymwneud â sicrhau cynnal a gwella bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau, gan adlewyrchu dyletswydd adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, rhoddaf bwys cyfyngedig ar yr asesiad o Gynnydd Net o ran Bioamrywiaeth.
37. Mae'r Arolygwyr yn nodi amcanion polisi Cymru'r Dyfodol a PCC sy'n ymwneud â sicrhau cynnal a gwella bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau, gan adlewyrchu dyletswydd adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. (AA 214)
38. Mae'r Arolygwyr yn dweud, o ystyried nodau'r Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecolegol, ei bod yn bosibl y gallai cynefinoedd neu rywogaethau gwerthfawr sefydlu ar y safle yn ystod y cyfnod gweithredu. Felly, mae angen amod sy'n gofyn am gynnal arolygon ecolegol cyn datgomisiynu. Mae'r Arolygwyr yn nodi, o ystyried y darpariaethau mewn deddfwriaeth bresennol, ac oherwydd ni ellir gwybod cynnwys deddfwriaeth a pholisi ymhen 40 mlynedd, rhaid rhagdybio y byddai'r safle'n dychwelyd i ddefnydd amaethyddol. Felly, rhoddir llai o bwys gan yr Arolygwyr ar fudd net y cynnig o ran bioamrywiaeth, oherwydd ei natur gyfyngedig o ran cyfnod o amser. (AA 234)

Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

39. Mae Ardal Cadwraeth Arbennig ("ACA") Caeau Mynydd Mawr tua 3km o'r safle. Mae'r Arolygwyr o'r farn, yn unol â chasgliadau asesiad sgrinio'r ymgeisydd, a gymeradwywyd gan CNC, na fyddai'r cynnig yn cael unrhyw effeithiau sylweddol tebygol ar ACA Caeau Mynydd Mawr, na'r rhwydwaith o safleoedd Ewropeaidd. (AA 235 - 238)
40. Mae'r Arolygwyr yn fodlon, yn ddarostyngedig i amodau priodol, y byddai'r cynnig yn osgoi niwed annerbyniol i nodweddion ecolegol o fewn y safle ac ardaloedd cyfagos, ac y byddai'n sicrhau budd net o ran bioamrywiaeth, yn unol â pholisïau Cymru'r Dyfodol 9 "Rhwydweithiau Ecolegol Cadarn a Seilwaith Gwyrdd" a 18 "Datblygiadau Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel o Arwyddocâd Cenedlaethol". Mae hefyd yn unol â pholisïau canlynol y CDLI: SP14, EQ4 "Bioamrywiaeth", EQ5 "Coridorau, Rhwydweithiau a Nodweddion o Natur Unigryw" ac EQ7 "Datblygiadau yn Ardal Canllawiau Cynllunio Atodol Caeau Mynydd Mawr". (AA 239)

Buddion

41. Yn unol â pholisi 17 Cymru'r Dyfodol, "Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel a Seilwaith Cysylltiedig", mae'r Arolygwyr yn rhoi pwys sylweddol ar fuddion y cynnig o ran y newid yn yr hinsawdd a sicrwydd ynni, a chyfraniad at darged Llywodraeth Cymru o gynhyrchu 70% o drydan Cymru drwy ffynonellau ynni adnewyddadwy erbyn 2030. (AA 240 – 241)
42. Mae'r Arolygwyr yn nodi y cyflwynwyd copi o Weithred Rodd ar gyfer cyfraniad ariannol gan yr ymgeisydd i Gyngor Cymuned Llanedi. Fodd bynnag, nid yw'r cyfraniad arfaethedig yn bodloni'r profion a nodir yng Nghylchlythyr y Swyddfa Gymreig 13/97: 'Rhwymedigaethau Cynllunio', ac felly ni ellir rhoi unrhyw bwys arno. (AA 242)
43. Mae'r Arolygwyr o'r farn y byddai'r cynnig yn arwain at rai buddion economaidd lleol uniongyrchol ac anuniongyrchol yn ystod y cyfnodau adeiladu a datgomisiynu. Fodd bynnag, byddai cyflogaeth tymor hwy yn deillio o'r cynllun yn gyfyngedig. Mae'r Arolygwyr o'r farn y byddai unrhyw fanteision sy'n deillio o arallgyfeirio ar ffermydd yn cael eu gwrthbwysu gan y tarfu ar ffermio llaeth ar ffermydd sydd wedi'u lleoli o fewn y safle. Ar y cyfan, mae'r Arolygwyr o'r farn y byddai buddion economaidd lleol y cynnig yn gyfyngedig. (AA 243)

Materion Eraill

Traffig, diogelwch ar y ffyrdd, a hawliau tramwy cyhoeddus

44. Gan ystyried yr amgylchiadau presennol ar y ffyrdd a'r mesurau lliniaru a nodir yn y Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu, sy'n cynnwys cyfyngiadau ar oriau cyflenwi, mae'r Arolygwyr o'r farn na fyddai maint y traffig adeiladu a achosir gan y cynnig yn effeithio'n annerbyniol ar ddiogelwch defnyddwyr y ffyrdd. Argymhellir amod a fyddai'n cyfyngu ar y defnydd o Heol Troeon Bach (C2134) gan draffig adeiladu. (AA 244 -245)
45. Mae'r Arolygwyr yn nodi'r effeithiau tebygol a achosir gan adlewyrchu solar ar ddefnyddwyr y ffyrdd, a chafodd Hawliau Tramwy Cyhoeddus eu hasesu fel rhan o'r Astudiaeth Fflachiadau a Llacharedd, ac ni nodwyd unrhyw effeithiau andwyol. (AA 246)
46. Mae'r Arolygwyr yn fodlon y byddai'r cynnig yn dderbyniol mewn perthynas â thraffig, diogelwch ar y ffyrdd, a Hawliau Tramwy Cyhoeddus, ac y byddai'n unol â pholisi 18 Cymru'r Dyfodol a pholisïau GP1 "Cynaliadwyedd a Dylunio o Ansawdd Da" a TR3 "Priffyrdd mewn Datblygiadau – Ystyriaethau Dylunio" y CDLI. (AA 247)

Asedau Hanesyddol

47. Nid oes unrhyw asedau hanesyddol dynodedig o fewn ffiniau'r safle. Fodd bynnag, byddai'r cynnig yn effeithio ar osodiad amrywiaeth o asedau hanesyddol dynodedig sydd wedi'u lleoli o fewn cwmpas gweledol y safle, yn arbennig Maen Hir Bryn-y-Rhyd, sef heneb gofrestredig i'r gogledd o'r safle, a 4 heneb gofrestredig ar dir uwch Graig Fawr i'r dwyrain. (AA 248 – 249)
48. Mae'r Asesiad Desg ar Dreftadaeth yn asesu lleoliad asedau dynodedig sydd o fewn 3km i'r safle ac mae'r Arolygwyr yn fodlon na fyddai'r cynnig yn niweidio lleoliad y 7 adeilad rhestredig o fewn y cwmpas gweledol. (AA 250 – 251)
49. Mae'r Arolygwyr yn fodlon na fyddai'r cynnig yn effeithio ar leoliad uchel ac anghysbell y 4 heneb sydd wedi'u lleoli ar Graig Fawr, na'u hamgylchedd uniongyrchol; sef ffactorau sy'n cyfrannu at eu harwyddocâd. Mae'r Arolygwyr hefyd

yn fodlon na fyddai lleoliad cyfagos Maen Hir Bryn-y-Rhyd yn cael ei newid ag unrhyw effaith ac na fyddai ei arwyddocâd yn cael ei niweidio. (AA 252 -253)

50. Argymhellir amod cynllunio ar gyfer ymchwilio archaeolegol gan fod arolygon wedi nodi nifer o nodweddion posibl ar y safle. (AA 254)
51. Daw'r Arolygwyr i'r casgliad na fyddai'r cynnig yn niweidio arwyddocâd asedau hanesyddol, ac felly, mae'n unol â pholisi 18 Cymru'r Dyfodol a pholisïau SP13 "Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol", GP1 "Cynaliadwyedd a Dylunio o Ansawdd Da" ac EQ1 "Gwarchod Adeiladau, Tirweddau a Nodweddion o Bwysigrwydd Hanesyddol" y CDLI. (AA 255)

Peryglon a Risgiau

52. Mae'r Arolygwyr yn fodlon, yn ddarostyngedig i osod amodau priodol, na fyddai'r cynnig yn cyflwyno perygl neu risg annerbyniol i iechyd a diogelwch dynol, ac y byddai'n cydymffurfio â pholisi 17 Cymru'r Dyfodol a pholisïau SP11 "Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni" ac EP6 "Tir Ansefydlog" y CDLI. (AA 256 – 260)

Amaethyddiaeth, pridd a mwynau

53. Mae'r safle yn cynnwys tir amaethyddol is-radd 3b ac nid yw'n dir amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas. (AA 261)
54. Mae'r Arolygwyr yn nodi bod sawl cynrychiolydd wedi codi pryderon ynghylch colli tir amaethyddol a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer cynhyrchu llaeth a chig eidion a magu defaid. Er y byddai'r cynnig yn golygu newid arferion rheolaeth ar y daliadau fferm yr effeithir arnynt, mae'r Arolygwyr o'r farn nad oes llawer o dystiolaeth y byddai'r araeau'n atal defnydd hyfyw o'r tir at ddibenion amaethyddiaeth, a bydd amodau'n cael eu sicrhau i ddiogelu'r adnodd pridd. Yn ddarostyngedig i'r amodau hyn, mae'r Arolygwyr yn fodlon bod y cynnig yn cydymffurfio â pholisi 17 Cymru'r Dyfodol a pholisi SP14 y CDLI. Gan y bydd cyfyngiad amser ar y datblygiad arfaethedig, byddai hynny'n osgoi sterileiddio unrhyw adnodd mwynau yn barhaol, ac felly, byddai'n unol â pholisi MPP3 "Diogelu Mwynau" y CDLI. (AA 262 – 263)

Llifogydd, Draenio a Chyrsiau Dŵr

55. Cefnogir y cais gan Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd sy'n cadarnhau bod ychydig o berygl o lifogydd neu ddim perygl ar y safle, gan ei fod wedi'i leoli mewn parth llifogydd A ar Fap Cyngor Datblygu CNC. (AA 264)
56. Mae'r Arolygwyr yn fodlon bod y dystiolaeth yn dangos na fyddai'r cynnig yn arwain at unrhyw effeithiau andwyol ar lifogydd, hydroddaeareg na chyrsiau dŵr, ac y byddai'n unol â pholisi 17 Cymru'r Dyfodol, polisi GP1 y CDLI, a Nodyn Cyngor Technegol 15: datblygu a pherygl llifogydd. (AA 265)

Deunyddiau a Gwastraff

57. Ceir disgrifiad o'r deunyddiau sydd i'w defnyddio yn y cynllun yn AA 266. Mae'r Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu Amlinellol yn nodi gofyniad am Gynllun Rheoli Gwastraff a fyddai'n cael ei sicrhau gan amodau cynllunio. Hefyd, byddai amodau yn sicrhau Cynllun Datgomisiynu a chynllun asesu ac ôl-ofal pridd. Yn ddarostyngedig i osod amodau priodol, daw'r Arolygwyr i'r casgliad y byddai'r cynnig yn cydymffurfio â pholisi 18 Cymru'r Dyfodol a pholisi GP1 y CDLI. (AA 266 – 269)

Arall

58. Rhoddir sylw yn AA 270-273 i faterion eraill a godwyd, gan gynnwys lleoliad y datblygiad, cysylltiad grid, yr effaith ar y Gymraeg, yr effaith ar dwristiaeth, a'r effaith ar fuddiannau preifat.

Amodau

59. Rwy'n fodlon, yn ddarostyngedig i fân newidiadau, bod yr amodau a argymhellir gan yr Arolygwyr yn bodloni'r profion perthnasol yng Nghylchlythyr Llywodraeth Cymru 016/2014: Defnyddio Amodau Cynllunio i Reoli Datblygu. (AA 274 - 277)

Cydbwysedd Cynllunio a Chasgliad Cyffredinol

60. Rhoddir pwys cymedrol gan yr Arolygwyr ar y niwed y byddai'r cynnig yn ei achosi i gymeriad tirwedd yr ardal ac i dderbynyddion gweledol. (AA 278)
61. Mae'r Arolygwyr o'r farn y byddai effeithiau ecolegol y cynllun yn dderbyniol ym mhob ffordd, yn ddarostyngedig i amodau i sicrhau gwelliannau i nodweddion ecolegol a budd net o ran bioamrywiaeth. Rhoddir pwys cymedrol ar y budd hwn. (AA 279)
62. Prif fantais y cynllun, fel y'i nodwyd gan yr Arolygwyr, yw'r cyfraniad at sicrhau cynhyrchiant ynni adnewyddadwy a gostyngiad dilynol mewn allyriadau CO₂. Mae'r Arolygwyr yn rhoi pwys sylweddol ar y budd hwn. (AA 280)
63. Rhoddir pwys anwybyddadwy ar y manteision economaidd lleol cyfyngedig. Byddai effeithiau'r cynnig mewn perthynas ag amwynder preswyl, traffig a diogelwch ar y ffyrdd, asedau hanesyddol, peryglon a risgiau, llifogydd, draenio a chysiau dŵr, amaethyddiaeth a phridd, deunyddiau a gwastraff, yn niwtral ac nid ydynt yn pwysu o blaid nac yn erbyn y cynllun. Nid yw'r Arolygwyr yn rhoi unrhyw bwys ar faterion megis y Weithred Rodd i Gyngor Cymuned Llanedi ac effeithiau ar fuddiannau preifat. (AA 281)
64. Daw'r Arolygwyr i'r casgliad, o ran cydbwysedd cynllunio, yn enwedig yng ngoleuni'r newid sylweddol yn yr hinsawdd a manteision sicrwydd ynni'r cynllun, y gellir cyfiawnhau'r niwed a achosir gan y cynnig i gymeriad y dirwedd a derbynyddion gweledol, ac nad yw'n annerbyniol. O ganlyniad, byddai'r cynnig yn unol â pholisi 18 Cymru'r Dyfodol, a pholisi 17 Cymru'r Dyfodol. O ystyried dyddiad cyhoeddi Cymru'r Dyfodol mewn perthynas â'r CDLI, daw'r Arolygwyr i'r casgliad y byddai'r cynnig yn unol â'r cynllun datblygu yn ei gyfanrwydd. Mae'r Arolygwyr yn argymhell rhoi caniatâd cynllunio, yn ddarostyngedig i amodau. (AA 282)

Casgliad a Phenderfyniad

65. Cytunaf ag arfarniad yr Arolygwyr o'r prif ystyriaethau, casgliadau Adroddiad yr Arolygwyr, a'r rhesymeg y tu ôl iddynt, a derbyniaf yr argymhelliad. Felly, drwy hyn, rhoddaf ganiatâd cynllunio ar gyfer DNS/3260565, yn ddarostyngedig i'r amodau yn yr Atodiad i'r llythyr penderfyniad hwn.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("Deddf LICD")

66. Rhaid i Weinidogion Cymru gyflawni datblygu cynaliadwy, yn unol â Deddf LICD. Wrth wneud fy mhenderfyniad ar y cais, rwyf wedi ystyried y ffyrdd o weithio a nodir yn adran 5(2) Deddf LICD a 'Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol 1: Canllawiau Craidd – Canllawiau Statudol ar Ddeddf LICD'. Mae fy asesiad yn erbyn pob un o'r ffyrdd o weithio wedi'i nodi isod.

Edrych i'r tymor hir

67. Mae'r penderfyniad yn ystyried yr amcan hirdymor ac ymrwymiad i'r targed yng Nghymru o gynhyrchu 70% o'r trydan a ddefnyddir drwy ddulliau adnewyddadwy erbyn 2030, er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

Mabwysiadu dull integredig

68. Rwyf wedi ystyried effeithiau'r penderfyniad hwn ar amcanion llesiant Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys y nodau llesiant sydd yn adran 4 Deddf LICD. Lle nad yw amcan wedi'i nodi, mae effaith y penderfyniad hwn yn niwtral.

Effaith ar amcanion llesiant

- Datblygu economi ar sail egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol – effaith gadarnhaol
- Datblygu economi gryfach, wyrddach wrth i ni wneud y cynnydd gorau tuag at ddatgarboneiddio – effaith gadarnhaol
- Ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn – effaith gadarnhaol.


Cynnwys pobl/Cydweithredu ag eraill

69. O fewn fframwaith y broses o wneud penderfyniadau statudol, a lywodraethir gan weithdrefnau rhagnodedig, bu'r cais yn destun cyhoeddusrwydd ac ymgynghori, gan roi cyfle i'r cyhoedd a rhanddeiliaid ymgysylltu. Mae sylwadau a dderbyniwyd drwy'r gweithdrefnau hyn wedi'u hystyried a'u nodi wrth wneud penderfyniad ar y cais hwn.

Atal

70. Mae'r penderfyniad yn ystyried yr angen i gynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy a brwydro yn erbyn yr argyfwng hinsawdd, yn ogystal â gwella sicrwydd ynni.
71. Rwyf o'r farn bod fy mhenderfyniad yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a nodir yn Neddf LICD, ac felly'n gam rhesymol tuag at gyflawni amcanion llesiant Llywodraeth Cymru.
72. Rwyf wedi ystyried y Datganiad Amgylcheddol a'r holl wybodaeth amgylcheddol arall a ddarparwyd wrth ystyried y cais hwn, fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 2017.
73. Mae copi o'r llythyr hwn wedi'i anfon at Gyngor Sir Gâr ac at yr unigolion a'r sefydliadau hynny a ymddangosodd yn y Gwrandawiadau.

Yn gywir



Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Atodiad – DNS/3260565 Amodau Cynllunio

1. Dechreuir y datblygiad heb fod yn hwyrach na phum mlynedd o ddyddiad y penderfyniad hwn.
Rheswm: Er mwyn cydymffurfio ag Adran 91 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990
2. Gweithredir y datblygiad yn unol â'r cynlluniau cymeradwy canlynol, ac eithrio lle maent wedi'u diwygio gan amodau sydd ynghlwm wrth y caniatâd cynllunio hwn:
 - Lluniad Rhif 1 Cynllun Lleoliad y Safle
 - Lluniad Rhif 2 Cynllun Lleoliad y Safle a Manylion Mynediad
 - Lluniad Rhif 3 (Fersiwn 2) Cynllun Gosodiad y Safle
 - Lluniad Rhif 4 (Fersiwn 2) Mynediad i Gerbydau Adeiladu
 - Lluniad Rhif 5 Manylion Gweddau'r Strwythurau Gosod
 - Lluniad Rhif 6 Manylion Unedau Trosi
 - Lluniad Rhif 7 Manylion Ffens Ddiogelwch
 - Lluniad Rhif 8 Manylion System Teledu Cylch Cyfyng
 - Lluniad Rhif 9 (Fersiwn 2) Ardal Lofaol
 - Lluniad Rhif 10 / Gcs0015-1 (Diwygiad Rhif 7) Adeilad Is-orsaf
 - Lluniad Rhif BHA_791_02 Diwygiad B Cynllun Cadw, Gwaredu a Diogelu Coed
 - Lluniad Rhif P20-1336_09 Diwygiad E Cynllun Lliniaru Tirwedd

Rheswm: Er mwyn sicrhau y gweithredir y datblygiad yn unol â'r dogfennau, cynlluniau a lluniadau cymeradwy a gyflwynwyd gyda'r cais

3. Bydd y datblygiad awdurdodedig yn peidio â gweithredu 40 mlynedd ar ôl y dyddiad y caiff trydan ei allforio gyntaf i'r grid cenedlaethol (ac eithrio unrhyw brofi neu gomisiynu). Mae'r caniatâd cynllunio hwn yn awdurdodi datgomisiynu'r datblygiad a bydd yn dod i ben ar y dyddiad y bydd y safle wedi'i ddatgomisiynu yn unol â'r Cynllun Rheoli Amgylcheddol Datgomisiynu cymeradwy. Rhaid hysbysu'r awdurdod cynllunio lleol yn ysgrifenedig o'r dyddiad y mae'r datblygiad yn allforio trydan i'r grid cenedlaethol am y tro cyntaf, o fewn 28 diwrnod i'r allforio cyntaf.

Rheswm: Mae cyfyngiad amser ar y cynnig er budd amwynder gweledol ac er mwyn cydymffurfio â Pholisi 18 Cymru'r Dyfodol a Pholisïau SP11, SP14, GP1, EQ6 a RE3 y CDLI.

4. Heb fod yn hwyrach na 12 mis cyn diwedd y cyfnod gweithredu o 40 mlynedd (neu o fewn 12 mis ar ôl i gynhyrchu trydan ddod i ben yn barhaol) rhaid cyflwyno Cynllun Rheoli Amgylcheddol Datgomisiynu i'w gymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr awdurdod cynllunio lleol. Bydd y Cynllun Rheoli Amgylcheddol Datgomisiynu yn cynnwys y canlynol:
 - i) Arolygon ac asesiadau i nodi'r ecoleg a'r statws cynefin sy'n bodoli ar adeg y datgomisiynu er mwyn llywio'r Cynllun Rheoli Amgylcheddol Datgomisiynu.
 - ii) Datganiad Dull yn rhoi manylion y broses ar gyfer gwaredu elfennau'r fferm solar ffotofoltaig sydd wedi'u lleoli ar y tir, a datblygiadau cysylltiedig, ac unrhyw sylfeini, systemau angori, ffyrdd, a cheblau o dan yr wyneb a gwaith cysylltiedig, ac i ba raddau y gwneir hynny;
 - iii) Cynigion ar gyfer ailgylchu a gwaredu'n effeithiol yr elfennau a ddatgomisiynwyd;
 - iv) Cynllun rheoli traffig i fynd i'r afael â'r effeithiau tebygol ar draffig sy'n deillio o weithrediadau datgomisiynu;

- v) Mesurau i sicrhau gwarchodaeth amgylcheddol ar y safle sy'n ymwneud â'r holl weithrediadau datgomisiynu;
- vi) Mesurau i sicrhau gwarchodaeth ecolegol ar y safle sy'n ymwneud â'r holl weithrediadau datgomisiynu a hysbysir gan yr arolygon a'r asesiadau o dan i) uchod;
- vii) Amserlenni gweithredu ar gyfer pob elfen o'r Cynllun Rheoli Amgylcheddol Datgomisiynu;
- viii) Cyfrifoldebau adrodd a monitro a mecanweithiau cyflawni ar gyfer pob elfen o'r Cynllun Rheoli Amgylcheddol Datgomisiynu; a
- ix) Mesurau adfer y safle yn dilyn yr holl waith datgomisiynu, wedi'u llywio gan yr arolygon a'r asesiadau o dan i) uchod ac asesiad pridd; gan gynnwys ôl-ofal am gyfnod o 12 mis ar ôl cwblhau'r gwaith adfer.

Gweithredir y Cynllun Rheoli Amgylcheddol Datgomisiynu yn unol â'r manylion a gymeradwyir.

Rheswm: Er mwyn sicrhau bod y tir yn cael ei adfer yn briodol ac er mwyn cydymffurfio â Pholisïau 9, 17 a 18 Cymru'r Dyfodol a Pholisïau RE3, SP14, EQ4, EQ5, EQ7 a GP1 y CDLI.

5. Ni fydd unrhyw waith datblygu yn digwydd hyd nes y bydd cynllun gosodiad manwl o'r safle wedi'i gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd hyn yn cynnwys union leoliad yr araeau, adeiladau'r trawsnewidyddion, is-orsaf, ffensys, teledu cylch cyfyng, goleuadau, a'r mesurau lliniaru tirwedd a lliniaru ecolegol. Bydd y cynllun yn cael ei weithredu yn unol â'r manylion a gymeradwyir.

Rheswm: Er budd amwynder gweledol, amwynder preswyl ac ecoleg ac er mwyn cydymffurfio â Pholisïau 9 a 18 Cymru'r Dyfodol a Pholisïau RE3, SP11, SP14, EQ4, EQ5, EQ6, EQ7 a GP1 y CDLI.

6. Ni chaiff y lefelau sŵn fod yn uwch na lefelau sŵn cefndir yn yr annedd breswyl agosaf nad yw'n ymwneud yn ariannol â'r datblygiad ac sy'n bodoli'n gyfreithlon ar adeg rhoi'r caniatâd cynllunio hwn. Rhaid cynnal mesuriadau ac asesiadau yn unol â BS 4142: 2014+A1: 2019 'Dulliau ar gyfer graddio ac asesu sŵn diwydiannol a masnachol'. Lle mynegir y lefelau sŵn cefndir fel LA90 1 awr a mynegir y lefelau sŵn amgylchynol fel LAeq 1 awr.

Rheswm: Er budd amwynder preswyl ac er mwyn cydymffurfio â Pholisi 18 Cymru'r Dyfodol a Pholisïau SP11, RE3 a GP1 y CDLI.

7. O fewn dau fis o dderbyn cais ysgrifenedig gan yr awdurdod cynllunio lleol, rhaid i weithredwr y datblygiad, ar ei gost ei hun, gyflogi ymgynghorydd annibynnol a gymeradwyir gan yr awdurdod cynllunio lleol i gynnal asesiad sŵn yn unol â BS 4142: 2014+A1 2019 'Dulliau ar gyfer graddio ac asesu sŵn diwydiannol a masnachol' a / neu ddiwygiadau dilynol iddo, er mwyn asesu lefel yr allyriadau sŵn sy'n deillio o'r datblygiad er mwyn penderfynu a ydynt yn uwch na'r lefelau sŵn a nodir yn Amod 6. Bydd yr asesiad yn cael ei gynnal dan oruchwyliath yr awdurdod lleol.

Rheswm: Er budd amwynder preswyl ac er mwyn cydymffurfio â Pholisi 18 Cymru'r Dyfodol a Pholisïau SP11, RE3 a GP1 y CDLI.

8. Os eir y tu hwnt i lefelau sŵn cefndir, bydd yr arolwg a gyflwynir hefyd yn cynnwys mesurau lliniaru i sicrhau cydymffurfiaeth â lefelau sŵn cefndir fel sy'n ofynnol gan amod 6. Wedyn, bydd y datblygiad yn cael ei weithredu yn unol â'r mesurau lliniaru a gymeradwyir.

Rheswm: Er budd amwynder preswyl ac er mwyn cydymffurfio â Pholisi 18 Cymru'r Dyfodol a Pholisïau SP11, RE3 a GP1 y CDLI.

9. Ni fydd unrhyw waith datblygu yn digwydd hyd nes y bydd Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu wedi'i gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Caiff y Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu ei weithredu yn unol â'r manylion cymeradwy.

Rheswm: Er budd diogelwch ar y ffyrdd, amwynder preswyl, a bioamrywiaeth, ac er mwyn cydymffurfio â Pholisïau 9 a 18 Cymru'r Dyfodol a Pholisïau SP11, SP14, EQ4, EQ5, TR3 a GP1 y CDLI.

10. Ac eithrio'r hyn a gynigir yn y cais, ni fydd unrhyw fodd i gerbydau adeiladu gael mynediad i'r datblygiad ar unrhyw adeg o ffordd y C2134.

Rheswm: Er budd diogelwch ar y ffyrdd, yn unol â Pholisi 18 Cymru'r Dyfodol a Pholisïau TR3 a GP1 y CDLI.

11. Ni fydd unrhyw waith datblygu neu glirio'r safle yn digwydd hyd nes y bydd Cynllun Lliniaru Tirwedd terfynol wedi'i gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd y cynllun yn cynnwys y canlynol: -

i) Manyleb y planhigion:

- Rhywogaethau, isrywogaethau a chyltifarau'r planhigion
- Manylion y stoc plannu (maint y stoc, ffurf, cyflwr y gwreiddiau ac ati)

ii) Manyleb blannu:

- Dyfnder yr uwchbridd a'r isbridd; paratoi'r tir a thyfu'r planhigion
- Dimensiynau tyllau neu ffosydd plannu a deunydd ôl-lenwi arfaethedig
- Dwyseddau plannu/bylchau rhwng planhigion neu eu niferoedd
- Dulliau rheoli chwyn, a diogelu a chynnal planhigion
- Manylebau cymysgedd hadau a chyfraddau hau; a/neu fanyleb tyweirch.

Rheswm: Er budd bioamrywiaeth, amwynder preswyl ac amwynder gweledol, ac yn unol â Pholisïau 9 a 18 Cymru'r Dyfodol a Pholisïau RE3, SP11, SP14, EQ4, EQ5, EQ6, EQ7 a GP1 y CDLI.

12. Bydd y Cynllun Lliniaru Tirwedd a gymeradwyir yn cael ei weithredu yn y tymor plannu cyntaf ar ôl dechrau'r gwaith datblygu. Os bydd unrhyw goeden neu wrych a gynigir fel rhan o'r Fframwaith Tirwedd, neu unrhyw goeden neu wrych a blannwyd yn eu lle, yn cael eu gwaredu, eu diwreiddio neu eu dinistrio, neu'n marw neu'n profi difrod neu fethiant difrifol, o fewn cyfnod o 5 mlynedd o'r dyddiad plannu, bydd coeden neu wrych arall o'r un rhywogaeth a maint â'r un a blannwyd yn wreiddiol yn cael eu plannu yn yr un man yn ystod y tymor plannu nesaf yn union ar ôl marwolaeth/gwaredu/dinistrio'r goeden honno neu'r gwrych hwnnw.

Rheswm: Er budd bioamrywiaeth, amwynder preswyl ac amwynder gweledol, ac yn unol â Pholisïau 9 a 18 Cymru'r Dyfodol a Pholisïau RE3, SP11, SP14, EQ4, EQ5, EQ6, EQ7 a GP1 y CDLI.

13. Ni fydd unrhyw waith datblygu na chlirio'r safle yn digwydd hyd nes y bydd Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu a Chynllun Diogelu Ecolegol wedi'u cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd y Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu yn cynnwys:

- i) Mesurau i sicrhau gwarchodaeth amgylcheddol ar y safle i gynnwys yr holl weithrediadau adeiladu;
- ii) Mesurau i sicrhau gwarchodaeth ecolegol ar y safle i gynnwys yr holl weithrediadau adeiladu, gan gynnwys goleuo;
- iii) Cynllun Rheoli Pridd y Cyfnod Adeiladu, a ddatblygir o'r Cynllun Rheoli Pridd Amlinellol (dyddiedig Ionawr 2022)
- iv) Amserlen adeiladu fanwl ac amserlenni gweithredu ar gyfer holl elfennau'r Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu; a,
- v) Chyfrifoldebau adrodd a monitro a mecanweithiau cyflawni ar gyfer holl elfennau'r Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu.

Bydd y Cynllun Diogelu Ecolegol yn cynnwys:

- i) Yr holl amcanion ecolegol; a chynigion ar gyfer rheoli, cynnal a chadw, a monitro er mwyn cyflawni'r amcanion,
- ii) Datganiad Dull Coedyddiaeth sy'n unol â Phenawdau'r Telerau a nodir yn Atodiad 6.2 y Datganiad Amgylcheddol,
- iii) Cyfrifoldebau adrodd a monitro a mecanweithiau cyflawni ar gyfer holl elfennau'r Cynllun Diogelu Ecolegol.

Gweithredir y Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu a'r Cynllun Diogelu Ecolegol yn unol â'r manylion a gymeradwyir.

Rheswm: Er budd bioamrywiaeth, amwynder gweledol a diogelu'r amgylchedd, ac yn unol â Pholisïau 9, 17 a 18 Cymru'r Dyfodol a Pholisïau RE3, SP11, SP14, EQ4, EQ5, EQ6, EQ7 a GP1 y CDLI.

14. Ni fydd unrhyw waith datblygu na chlirio'r safle yn digwydd hyd nes y bydd Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecolegol wedi'i gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd y Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecolegol yn cynnwys:

- i) Yr holl amcanion tirwedd ac ecolegol; a chynigion ar gyfer rheoli, cynnal a chadw, a monitro er mwyn cyflawni'r amcanion,
- ii) Amserlenni ar gyfer cyflawni'r Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecolegol,
- iii) Cyfrifoldebau adrodd a monitro a mecanweithiau cyflawni ar gyfer holl elfennau'r Cynllun.

Gweithredir y Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecolegol yn unol â'r manylion a gymeradwyir. Bydd adroddiad ysgrifenedig ar effeithiolrwydd y Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecolegol yn cael ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol bob 5 mlynedd ar ben-blwydd yr allforiad trydan cyntaf i'r grid cenedlaethol. Bydd yr adroddiad yn cynnwys mesurau arfaethedig i fynd i'r afael ag unrhyw fethiannau, i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr awdurdod cynllunio lleol, a gweithredir y mesurau a gymeradwyir yn unol ag amserlen i'w chytuno'n ysgrifenedig gan yr awdurdod cynllunio lleol.

Rheswm: Er budd bioamrywiaeth, amwynder preswyl ac amwynder gweledol, ac yn unol â Pholisïau 9 a 18 Cymru'r Dyfodol a Pholisïau RE3, SP11, SP14, EQ4, EQ5, EQ6, EQ7 a GP1 y CDLI.

15. NI ddechreuir unrhyw waith datblygu hyd nes y bydd:

- i) Manylion ymchwiliadau ar y safle, a ddylunnir i adnabod y risgiau i'r datblygiad oherwydd gweithgarwch cloddio glo yn y gorffennol, wedi'u cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo,
- ii) Canlyniadau'r ymchwiliadau hynny wedi'u cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol ynghyd â manylion unrhyw waith adfer arfaethedig a/neu fesurau lliniaru i fynd i'r afael ag ansadrwydd tir sy'n deillio o gloddio glo yn y gorffennol. Caiff y manylion hynny eu cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr awdurdod cynllunio lleol,
- iii) Unrhyw waith adfer a/neu fesurau lliniaru cymeradwy wedi'u gweithredu yn unol â'r manylion a gymeradwyir.

Rheswm: Er mwyn diogelu'r sawl sy'n adeiladu ac yn gweithredu'r datblygiad a ganiateir drwy hyn, a defnyddwyr y tir yn y dyfodol, yn unol â Pholisi 17 Cymru'r Dyfodol a Pholisïau SP11 ac EP6 y CDLI.

16. Cyn y bydd y datblygiad a ganiateir drwy hyn yn allforio trydan i'r grid cenedlaethol, rhaid i ddatganiad neu gyhoeddiad llofnodedig, a baratowyd gan berson cymwys addas, gael ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo, yn cadarnhau bod y safle yn ddiogel ac yn sefydlog, neu wedi'i wneud yn ddiogel ac yn sefydlog, ar gyfer y datblygiad a gymeradwywyd. Bydd y ddogfen hon yn cadarnhau bod unrhyw waith adfer a/neu lliniaru angenrheidiol wedi'i gwblhau i fynd i'r afael â'r risgiau a achosir gan weithgarwch cloddio glo yn y gorffennol.

Rheswm: Er mwyn diogelu'r sawl sy'n adeiladu ac yn gweithredu'r datblygiad a ganiateir drwy hyn, a defnyddwyr y tir yn y dyfodol, yn unol â Pholisi 17 Cymru'r Dyfodol a Pholisïau SP11 ac EP6 y CDLI.

17. Ni fydd unrhyw waith datblygu yn digwydd hyd nes y bydd yr ymgeisydd wedi sicrhau cytundeb ar gyfer cynllun lliniaru ysgrifenedig mewn perthynas â'r amgylchedd hanesyddol, a'i gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo. Wedi hynny, bydd y rhaglen waith yn cael ei chyflawni'n llawn yn unol â gofynion a safonau'r cynllun ysgrifenedig cymeradwy.

Rheswm: Er mwyn diogelu'n briodol unrhyw nodweddion archaeolegol posibl, yn unol â Pholisi 18 Cymru'r Dyfodol a pholisïau SP13, GP1 ac EQ1 y CDLI.

Hysbysiad ynghylch cychwyn datblygiad ac arddangos hysbysiad

Rhaid i chi gydymffurfio â'ch dyletswyddau yn adran 71ZB (hysbysiad ynghylch cychwyn datblygiad ac arddangos hysbysiad: Cymru) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Mae'r dyletswyddau'n cynnwys y canlynol:

Hysbysiad ynghylch cychwyn datblygiad

Cyn cychwyn unrhyw ddatblygiad mewn perthynas â'r caniatâd cynllunio hwn, rhaid rhoi hysbysiad i'r awdurdod cynllunio lleol yn y ffurflen a nodir yn Atodlen 5A Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 neu ar ffurf sydd ag effaith sylweddol debyg. Mae'r ffurflen yn nodi'r manylion y mae'n rhaid eu rhoi i'r awdurdod cynllunio lleol er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd hon.

Arddangos hysbysiad

Rhaid i'r person sy'n cyflawni'r gwaith datblygu mewn perthynas â'r caniatâd cynllunio hwn arddangos, ar neu gerllaw'r man y cyflawnir y datblygiad, drwy gydol yr amser y gwneir y gwaith datblygu, hysbysiad o'r caniatâd cynllunio hwn yn y ffurflen a nodir yn Atodlen 5B Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 neu ar ffurf sydd ag effaith sylweddol debyg. Mae'r ffurflen yn nodi'r manylion y mae'n rhaid i'r person sy'n cyflawni'r datblygiad eu harddangos er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd hon.

Rhaid i'r person sy'n cyflawni'r gwaith datblygu sicrhau bod yr hysbysiad:

- a) wedi'i osod yn gadarn a'i arddangos mewn man amlwg ar neu gerllaw'r man y cyflawnir y datblygiad;
- b) yn ddarllenadwy ac yn hawdd i'r cyhoedd ei weld heb orfod mynd i mewn i'r safle; ac
- c) wedi'i argraffu ar ddeunydd gwydn. Dylai'r person sy'n cyflawni'r datblygiad gymryd camau rhesymol i ddiogelu'r hysbysiad (rhag iddo gael ei dynnu, ei guddio neu ei ddifwyno) ac, os oes angen, gosod hysbysiad arall yn ei le.